



Adran Gwyddorau Bywyd

Astudiaethau israddedig mewn

Y Gwyddorau Ecolegol

Cynnwys

| | |
|------------------------------------|------|
| Croeso | t.1 |
| Ein cyrsiau | t.2 |
| Cynlluniau Meistr integredig | t.16 |
| Blwyddyn integredig mewn diwydiant | t.18 |
| Cyfleoedd byd-eang | t.20 |
| Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg | t.22 |
| Ymchwil | t.24 |
| Uchafbwyntiau ymchwil | t.26 |
| Sut i wneud cais | t.28 |



Gwybodaeth bwysig

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir am y rhaglenni gradd yn y llyfryn hwn yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w hargraffu (Mai 2022), ond fe allai newid. Cynghorir darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs, gan gynnwys ein gofynion mynediad, cyn gwneud cais, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.

Croeso

Croeso i'r 'Adran Gwyddorau Bywyd, canolfan ymchwil ac addysg o safon byd-eang yma ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ein cenhadaeth yw gwella iechyd a lles pobl drwy weithgaredd ymchwil, addysg ac ymgysylltu. Rydym yn credu bod hyn yn dibynnu ar gyflawni amgylchedd iach, planhigion ac anifeiliaid iach, a busnesau iach.

Rydym yn darparu amgylchedd dysgu rhagorol ar gyfer eich datblygiad academaidd a phersonol, gyda'r cyfleusterau diweddaraf ac ysgoloriaethau hael. Bydd darlithwyr ymroddgar ac ysbrydoledig yn dod â'ch cwrs yn fyw. Arweinir llawer o'n haddysgu gan ddiddordebau ymchwil blaengar ein staff.

Gallwn gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu i chi, yn cynnwys darlithoedd a seminarau rhyngweithiol, dosbarthiadau labordy, grwpiau tiwtorial bach, a chyrsiau maes. Mae'r hyblygrwydd o allu dewis o blith amrywiaeth o fodiwlau gwahanol yn golygu y gallwch deilwra eich cwrs i'ch diddordebau unigol. Cewch eich asesu mewn amrywiol ffyrdd, yn cynnwys arholiadau, adroddiadau labordy, cyflwyniadau a thraethodau, gyda'r cyfan wedi'i gynllunio i gyfoethogi eich setiau sgiliau penodol i'r pwnc, sgiliau personol a throsglwyddadwy.

Mae Aberystwyth ar lannau bae Ceredigion ar arfordir gorllewin Cymru, mewn amgylchedd naturiol syfrdanol. Mae'r ardal yn cynnig morlin gwych ynghyd ag eangderau o weundir a dyffrynnoedd coediog, sy'n golygu mai Prifysgol Aberystwyth yw'r lle delfrydol i astudio ecoleg a phynciau cysylltiedig.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein cyrsiau a chyfleoedd eraill yn y llyfryn hwn. Ymunwch â ni ar Ddiwrnod Agored neu Ddiwrnod Ymweld i Ymgeiswyr i gael golwg ar yr hyn sy'n gwneud Aberystwyth yn lle mor anhygoel i astudio.

Yr Athro Iain Donnison
Pennaeth Adran



Ein cyrsiau

Anrhydedd sengl

| | |
|--------------------------|------|
| Bioleg a Newid Hinsawdd | t.3 |
| Bioleg Planhigion | t.4 |
| Bioleg y Môr a Dŵr Croyw | t.6 |
| Cadwraeth Bywyd Gwyllt | t.7 |
| Ecoleg | t.8 |
| Gwyddorau Bywyd | t.10 |
| Swoleg | t.12 |
| Ymddygiad Anifeiliaid | t.14 |

Cynlluniau Meistr integredig

| | |
|--------------------------|------|
| Bioleg y Môr a Dŵr Croyw | t.16 |
| Swoleg | t.16 |

Rydym yn hefyd cynnig:

- Amaethyddiaeth (BSc, 3 blynedd)
- Amaethyddiaeth (MAg, 4 blynedd)
- Amaethyddiaeth (Sylfaen) (FdSc, 2 blynedd)
- Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid (MAg, 4 blynedd)
- Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid (BSc, 3 blynedd)
- Amaethyddiaeth gyda Rheoli Busnes (BSc, 3 blynedd)
- Astudiaethau Ceffylau (cynllun atodol) (BSc, 1 blwyddyn)
- Astudiaethau Ceffylau (Sylfaen) (FdSc, 2 blynedd)
- Biocemeg (BSc, 3 blynedd)
- Biocemeg (MBiol, 4 blynedd)
- Bioleg (BSc, 3 blynedd)
- Bioleg (MBiol, 4 blynedd)
- Bioleg (Sylfaen) (FdSc, 2 blynedd)
- Bioleg Ddynol ac Iechyd (BSc, 3 blynedd)
- Biowyddor Ceffylau a Milfeddygol (BSc, 3 blynedd)
- Biowyddorau Milfeddygol (BSc, 3 blynedd)
- Geneteg (BSc, 3 blynedd)
- Geneteg a Biocemeg (BSc, 3 blynedd)
- Gwyddor Anifeiliaid (BSc, 3 blynedd)
- Gwyddor Ceffylau (BSc, 3 blynedd)
- Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff (BSc, 3 blynedd)
- Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff (Sylfaen) (FdSc, 2 blynedd)
- Gwyddorau Biofeddygol (BSc, 3 blynedd)
- Microbioleg (BSc, 3 blynedd)
- Microbioleg (MBiol, 4 blynedd)

Bioleg a Newid Hinsawdd

BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (FC72)

Wedi'i gynllunio ar gyfer darpar fyfyrwyr nad oes ganddynt gefndir academiaidd ddigonol neu berthnasol, mae'r cwrs gyda blwyddyn sylfaen integredig yn ddewis perffaith i gael mynediad at y cynllun gradd hynod boblogaidd hwn. Yn ystod y flwyddyn sylfaen, cewch eich dysgu am hanfodion Bioleg a bydd hynny'n rhoi ichi sail gadarn i allu mynd ymlaen i fwynhau'r radd israddedig lawn.

Ar y radd hon, byddwch yn dysgu am y wyddoniaeth sy'n sail i brosesau'r hinsawdd, a sut mae dynol ryw wedi newid y prosesau hyn yn y cyfnod diweddar. Byddwch yn archwilio effeithiau newid hinsawdd ar fioamrywiaeth ar lefel rhywogaethau, cynefinoedd, a'r ecosystemau, a'r posibilrwydd y bydd organebau a phoblogaethau yn esblygu yn sgil y bygythiad hwn. Gan weithio ar draws disgyblaethau, byddwch yn dysgu am yr angen am ymchwil wyddonol a mesurau rheoli wrth fynd i'r afael â'r materion pwysig hyn.


Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Bioleg a Newid Hinsawdd (gyda blwyddyn sylfaen integredig) yn Aberystwyth:


- amrywiaeth eang o gynefinoedd ac ecosystemau lleol, ar y môr a'r tir - a lleoliadau delfrydol i astudio effeithiau newid hinsawdd ar fioamrywiaeth, a'r cyfleoedd i liniaru'r newid
- cyfle i gynnal ymchwil yn y maes, yn lleol a thramor
- cael gweithio gydag ymchwilwyr academiaidd cydnabyddedig sy'n gweithio ar amrywiol agweddau ar effeithiau newid hinsawdd byd-eang ar ecosystemau naturiol yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.


Cyflogadwyedd

Mae ein graddedigion yn gymwys i ddilyn gyrfa ym maes rheoli, addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â gyrfaedd mewn meysydd cysylltiedig, megis addysg amgylcheddol a gwaith ymgynghorol neu gadwraeth.

Ffeithiau Allweddol

 **Math o radd:** BSc.

 **Cod UCAS:** FC71 (FC72 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant).

 **Hyd:** 3 blynedd (mae FC72 yn 4 blynedd).

Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

Y flwyddyn gyntaf:

- Communication Skills
- Molecules and Cells
- Organisms and the Environment
- Practical Skills for Biologists.

Yr ail flwyddyn:

- Amrywiaeth Microbau/Microbial Diversity
- Climate Change: Impacts, Perceptions, Adaptations
- Ecoleg/Ecology
- Evolution and Diversity of Life
- Introduction to Conservation
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills
- Climate and Climate Change
- Y Blaned Werdd/The Green Planet.

Y drydedd flwyddyn:

- Climate Change: Plants, Animals and Ecosystems
- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- The Governance of Climate Change.

Y flwyddyn olaf:

- Global Biodiversity Conservation
- Prosiect Ymchwil/Research Project.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

Bioleg Planhigion

BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (C202)

Mae gan raddedigion Bioleg Planhigion gyfleoedd gyrfaoel gwych, ac mae Prifysgol Aberystwyth yn lle delfrydol ar gyfer cam cyntaf eich gyrfa. Rydym yn gartref i raglenni bridio planhigion a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer gweiriau sy'n uchel o ran siwgr, adnoddau a chronfeydd data geneteg planhigion, gerddi botaneg, a'r Ganolfan Genedlaethol Ffenomeg Planhigion.

Trwy ddilyn y radd hon byddwch yn astudio pob agwedd ar fywyd planhigion, o'r moleciwlaidd i'r ecolegol, ac ar yr un pryd yn archwilio materion byd-eang sy'n ymwneud â phlanhigion. Byddwch yn ystyried sut y gall technoleg sy'n seiliedig ar blanhigion ein cynorthwyo i wynebu her poblogaeth ddynol sy'n tyfu a bygythiadau'r dyfodol, yn cynnwys diogelwch bwyd a newid yn yr hinsawdd. Byddwch hefyd yn elwa yn sgil llw o gyfleoedd am waith maes, gan gynnwys y posibilrwydd o astudio flora Tymherus, Trofannol ac Arctig-Alpinaidd.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Bioleg Planhigion yn Aberystwyth:

- cyfleusterau o safon fyd-eang gan gynnwys gerddi botaneg gydag amrywiaeth eang o blanhigion tymherus a throfannol, amrywiaeth eang o ystafelloedd tyfu a thai gwydr, ac amgueddfa o sbesimenau botanegol hanesyddol
- mynediad at y Ganolfan Ffenomeg Planhigion Genedlaethol a'r posibilrwydd o ymwneud â'n rhaglenni bridio planhigion sy'n arwain y byd
- cynefinoedd prydferth, sy'n cynnig amrywiaeth ryfeddol o gyfleoedd gwaith maes a hamdden.

Cyflogadwyedd

Mae'r cyfleoedd gyrfa ar gyfer gwyddonwyr planhigion yn wirioneddol ragorol, gyda llawer o swyddi a dim ond ychydig o wyddonwyr hyfforddedig yn y maes hwn. Mae ein Hathrofa mewn sefyllfa berffaith i'ch helpu i fanteisio ar gysylltiadau yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae ein graddedigion yn gweithio yn maes rheoli cadwraeth, mewn athrofeydd ymchwil planhigion dan nawdd y Llywodraeth a rhai diwydiannol, ac yn y gwasanaeth sifil gwyddonol.

Ffeithiau Allweddol



Math o radd: BSc.



Cod UCAS: C200 (C202 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant).



Hyd: 3 blynedd (mae C202 yn 4 blynedd).

Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

Y flwyddyn gyntaf:

- Amrywiaeth Microbau/Microbial Diversity
- Biochemistry and the Cellular Basis of Life
- Datblygu a Rheoli Cynefinoedd ym Mhrydain/The Development and Management of British Habitats
- Ecoleg/Ecology
- Evolution and the Diversity of Life
- Exploring Genetics
- Molecular Laboratory Skills
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills
- Soils and their Management
- The Biosphere
- Y Blaned Werdd/The Green Planet.

Yr ail flwyddyn:

- Agronomy and Crop Improvement
- Arolygu Ecolegol/Ecological Surveying
- Climate Change: Plants, Animals and Ecosystems
- Dulliau Ymchwil/Research Methods.

Y flwyddyn olaf:

- Frontiers in Plant Science
- Microbial Pathogenesis
- Prosiect Ymchwil/Research Project.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

Cwrs achrededig:



Bioleg y Môr a Dŵr Croyw

BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (C166)

Mae Aberystwyth, ar arfordir Bae Ceredigion, yn un o'r lleoedd gorau oll i astudio Bioleg y Môr a Dŵr Croyw. Mae gan ein myfyrwyr fynediad rhwydd i draethau creigiog a thywodlyd, aberoedd sydd o bwys o ran cadwraeth, yn ogystal ag afonydd a llynnoedd sydd fwy na heb yn ddilychwin. Ym Mae Ceredigion ceir hefyd y boblogaeth breswyl fwyaf o ddolffiniaid trwyn potel yn y DU!

Mae ein gradd Bioleg y Môr a Dŵr Croyw yn un o'r ychydig raddau yn y DU a fydd yn rhoi ichi ddealltwriaeth dalgylch-i'r-môr, o'r fioleg, yr ecoleg a'r heriau sy'n effeithio ar yr ecosystemau hyn, a'r cysylltiad agos rhyngddynt. Mae hyn yn hanfodol, o ystyried eu bod yn cefnogi rhai o'r rhywogaethau a'r cynefinoedd sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf ar y blaned. Ar y cwrs hwn byddwch yn datblygu sgiliau ymarferol ym maes technegau samplu a ddefnyddir yn yr amgylchedd dyfrol, dadansoddi data a darllen llenyddiaeth yn feirniadol, a chyflwyno'r canfyddiadau i amrywiaeth o randdeiliaid. Bydd hyn yn sicrhau eich bod wedi'ch paratoi yn dda ar gyfer swyddi proffesiynol ym maes bioleg y môr a dŵr croyw.


Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Bioleg y Môr a Dŵr Croyw yn Aberystwyth:


- cymryd rhan mewn cyrsiau maes preswyl, yn canolbwyntio naill ai ar fioleg forol neu ddŵr croyw
- mynd ar ddwy long ymchwil i ymarfer y technegau samplu a ddefnyddir gan fiolegwyr morol a dŵr croyw proffesiynol
- astudio systemau acwariwm ar gyfer organebau morol a dŵr croyw.


Cyflogadwyedd

Mae graddedigion Bioleg y Môr a Dŵr Croyw yn meddu ar sgiliau a gwybodaeth sy'n eu galluogi i fynd i amrywiaeth eang o yrfaedd gan gynnwys ymgynghori ecolegol, rheoli a chadwraeth amgylcheddol, addysgu a newyddiaduraeth wyddonol. Byddwch hefyd yn gwbl barod i ddilyn gyrfa ym maes ymchwil wyddonol, gan astudio cwrs Meistr neu ddoethuriaeth ar lefel uwchraddedig.

Ffeithiau Allweddol

 **Math o radd:** BSc.

 **Cod UCAS:** C164 (C166 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant).

 **Hyd:** 3 blynedd (mae C166 yn 4 blynedd).

Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

Y flwyddyn gyntaf:

- Amrywiaeth Microbau/Microbial Diversity
- Biochemistry and the Cellular Basis of Life
- Comparative Animal Physiology
- Ecoleg/Ecology
- Evolution and the Diversity of Life
- Exploring Genetics
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills
- Wildlife Forensics
- Y Blaned Werdd/The Green Planet.

Yr ail flwyddyn:

- Applied Aquatic Conservation
- Aquatic Botany
- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- Freshwater Biology
- Marine Biology.

Y flwyddyn olaf:

- Fish Biology, Fisheries and Aquaculture
- Prosiect Ymchwil/Research Project.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

Cwrs achrededig:



Cadwraeth Bywyd Gwylt

BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (C184)

Diben ein gradd Gwarchod Bywyd Gwylt yw rhoi ichi ddealltwriaeth fanwl o'r cysyniadau ecolegol sy'n sail i warchod fflora, ffawna a chynefinoedd, ar raddfa leol a byd-eang. Mae'r tîm addysgu yn cynnwys staff academiaidd sy'n ymchwilio i faterion cadwraeth er mwyn llywio gwaith rheoli a llunio polisiau. Mae'r amrywiaeth o gynefinoedd difyr a phwysig a geir yn Aberystwyth yn creu ystafell ddosbarth naturiol ddelfrydol ar gyfer dysgu sgiliau ymarferol.

Trwy astudio Gwarchod Bywyd Gwylt byddwch yn dysgu am y prosesau ecolegol ac esblygiadol sydd wedi siapio cynefinoedd allweddol, a'r rhyngweithio rhwng y cynefinoedd hyn a'r bywyd gwylt y maent yn ei gefnogi. Byddwch hefyd yn archwilio'r grymoedd gwleidyddol, ariannol a chymdeithasol sy'n sail i warchod bywyd gwylt a rheoli'r amgylchedd. Gyda'r sylfaen hon, byddwch yn deall pwysigrwydd gwarchod bioamrywiaeth ar ystod o raddfeydd, o fioamrywiaeth genetig i fïomau cyfan, a byddwch yn datblygu'r wybodaeth academiaidd a'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i allu cyfrannu at y blaenoriaethau hyn yn eich gyrfa broffesiynol.


Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Gwarchod Bywyd Gwylt yn Aberystwyth:


- amrywiaeth eang o gynefinoedd lleol, a mynediad i Barciau Cenedlaethol, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig - lleoliad delfrydol ar gyfer astudio holl agweddau gwarchod bywyd gwylt a rheoli cynefinoedd
- cysylltiadau uniongyrchol â chyrrff cadwraeth llywodraethol ac anllywodraethol, megis Cyfoeth Naturiol Cymru a'r RSPB, trwy ymweliadau a seminarau
- y cyfle i gynnal ymchwil maes, yn lleol a thramor
- staff addysgu arbenigol sy'n gweithio'n agos gyda chyrrff cadwraethol i gynghori ynghylch arferion gorau ym meysydd cadwraeth, rheoli a pholisi, yn lleol ac ar raddfa fyd-eang.


Cyflogadwyedd

Bydd graddedigion y radd hon yn gymwys i ddilyn gyrfa mewn bioleg a rheoli cadwraethol, yn y DU a thramor. Hefyd, gall myfyrwyr ddewis dilyn yrfaedd mewn meysydd cysylltiedig megis addysg amgylcheddol, neu wneud ymchwil uwchraddedig ar lefel Meistr neu PhD.

Ffeithiau Allweddol

 **Math o radd:** BSc.

 **Cod UCAS:** C183 (C184 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant).

 **Hyd:** 3 blynedd (mae C184 yn 4 blynedd).

Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

Y flwyddyn gyntaf:

- Climate and Climate Change
- Datblygu a Rheoli Cynefinoedd ym Mhrydain/ The Development and Management of British Habitats
- Ecoleg/Ecology
- Evolution and the Diversity of Life
- Introduction to Palaeobiology
- Introduction to Conservation
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills
- Wildlife Forensics
- Y Blaned Werdd/The Green Planet.

Yr ail flwyddyn:

- An Introduction to Landscape Ecology and Geographic Information Systems
- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- Wildlife Management.

Y flwyddyn olaf:

- Global Biodiversity Conservation
- Prosiect Ymchwil/Research Project
- Wildlife Conservation.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (C181)

Yn sgil yr angen brys i gofnodi, deall ac, yn y pen draw, atal dirywiad bioamrywiaeth, ceir galw mawr am ecolegwyr. Nod y radd hon yw rhoi ichi'r wybodaeth academaidd a'r sgiliau ymarferol er mwyn diwallu'r galw hwn.

Ar ein gradd Ecoleg byddwch yn astudio'r rhyngweithio rhwng organebau a'u hamgylchedd, gan greu'r sylfaen hanfodol er mwyn datblygu eich dealltwriaeth o sut y bydd bywyd gwyllt yn ymateb i fgythiadau amgylcheddol yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys llygredd, newid yn yr hinsawdd, rhywogaethau ymledol, a dinistrio cynefinoedd. Ein nod ar y radd hon yw eich hyfforddi i fod yn rhan o'r genhedlaeth nesaf o ecolegwyr a fydd yn ymateb i fgythiadau amgylcheddol, yn canfod atebion, ac yn helpu i gynnal bioamrywiaeth i'r dyfodol.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Ecoleg yn Aberystwyth:


- astudio mewn ardal a chanddi gyfoeth o dirweddau trawiadol amrywiol, ac sy'n cynnig ecosystemau naturiol a lled-naturiol gan gynnwys arfordir Bae Ceredigion, amgylcheddau dŵr croyw, coedwigoedd, rhostiroedd, gweundiroedd a chynefinoedd alpaidd
- gwaith maes sy'n elwa ar y cyfoeth o gynefinoedd yn yr ardal leol
- cwrs maes preswyl 8 diwrnod yn Iwerddon, neu 9-10 diwrnod yn Sweden, yn dibynnu ar y modiwl a ddewisir
- llawer o warchodfeydd natur o fewn cyrraedd hwylus, gan gynnwys Parciau Cenedlaethol Eryri a Bannau Brycheiniog
- cysylltiadau ag Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, RSPB ac amrywiol ymddiriedolaethau bywyd gwyllt a choetiroedd.

Cyflogadwyedd

Mae llawer o'n graddedigion Ecoleg yn canfod swyddi ym maes cadwraeth a diogelu'r amgylchedd, neu mewn addysg amgylcheddol mewn ysgolion, colegau neu warchodfeydd natur. Mae rhai o'n graddedigion wedi sicrhau cyflogaeth mewn sefydliadau fel DEFRA, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Grid Cenedlaethol ac awdurdodau dŵr.

Ffeithiau Allweddol

 **Math o radd:** BSc.

 **Cod UCAS:** C180 (C181 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant).

Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

Y flwyddyn gyntaf:

- Amrywiaeth Microbau/Microbial Diversity
- Comparative Animal Physiology
- Ecoleg/Ecology
- Evolution and the Diversity of Life
- Exploring Genetics
- Introduction to Palaeobiology
- Introduction to Conservation
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills
- The Biosphere
- The Development and Management of British Habitats
- Y Blaned Werdd/The Green Planet.

Yr ail flwyddyn:

- An Introduction to Landscape Ecology and Geographic Information Systems
- Arolygu Ecolegol/Ecological Surveying
- Climate Change: Plants, Animals and Ecosystems
- Dulliau Ymchwil/Research Methods.


Y flwyddyn olaf:

- Environmental Protection, Law, Sustainability and Consultancy
- Population and Community Ecology
- Prosiect Ymchwil neu Adolygiad Critigol/ Research Project or Critical Review.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

Cwrs achrededig:



 **Hyd:** 3 blynedd (mae C181 yn 4 blynedd).



Gwyddorau Bywyd

BSc (Anrh)

Mae ein gradd Gwyddorau Bywyd wedi'i chynllunio'n benodol i gynnis llwybr amgen i chi at addysg uwch i astudio un o'n graddau gwyddorau biolegol. Gallech fod yn gymwys i'r cynllun os oes gennych y cymwysterau i fynd ymlaen i addysg uwch ond nid y cymwysterau perthnasol mewn gwyddoniaeth Safon Uwch (neu gyfatebol), os ydych yn dod o gefndir academaidd anhraddodiadol, neu os nad ydych wedi cyflawni'ch potensial addysgol cyflawn hyd yn hyn.

Mae'r flwyddyn sylfaen mewn Gwyddorau Bywyd yn cael ei dysgu gan staff o'r Adran Gwyddorau Bywyd, ac mae'n cynnwys rhaglen hollol integredig o ddarlithoedd, dosbarthiadau ymarferol, gweithdai a thiworialau mewn bioleg a phynciau cysylltiedig. Bydd y cwrs hwn yn rhoi ichi sylfaen gadarn mewn ystod o ddisgyblaethau gwyddonol gan gynnwys biocemeg, botaneg, bioleg celloedd, ecoleg, esblygiad, geneteg, microbioleg, swoleg, sgiliau astudio a thechnegau maes a labordy biolegol. Ar ddiwedd y flwyddyn sylfaen, byddwch wedi datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i symud ymlaen i flwyddyn gyntaf un o'n cynlluniau gradd.

Cyflogadwyedd

Mae'r radd sylfaen mewn Gwyddorau Bywyd yn cynnis llwybr at addysg uwch, a thrwy hynny amrywiaeth o gyfleoedd cyffrous ar gyfer cyfogaeth a hyfforddiant pellach. Gan ddibynnu ar eich dewis o ddisgyblaeth, byddwch yn ymgeisydd cryf am waith fel gwyddonydd ymchwil, swyddog cadwraeth, darlithydd addysg uwch neu athro ysgol uwchradd.

Ffeithiau Allweddol



Math o radd: BSc.



Cod UCAS: C990.



Hyd: 4 blynedd.

Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

- Communication Skills
- Molecules and Cells
- Organisms and the Environment
- Practical Skills for Biologists.

Bydd y modiwlau y byddwch yn eu hastudio ar ôl eich blwyddyn gyntaf yn dibynnu ar y radd y byddwch yn ei dewis.

I weld y modiwlau sydd ar gael, gweler tudalennau'r radd berthnasol yn y prospectws hwn, ewch i'n gwefan, neu cysylltwch â ni.



BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (C302)

Mae Aberystwyth yn lle rhagorol i astudio bywyd anifeiliaid yn ei holl amrywiaeth. Mae yma gyfoeth o arfordiroedd, aberoedd, coetiroedd a bryniau sy'n llawn bywyd gwyllt o fewn cyrraedd rhwydd i'r campws. Mae'r rhain yn cynnal pryfed prin, y barcud coch a'r frân goesgoch, ac mae Bae Ceredigion yn enwog am adar y môr, y morlo llwyd, y dolffin trwyn potel a'r llamhidydd harbwr.

Yn ystod eich cwrs Swoleg byddwch yn datblygu arbenigedd ym maes amrywiaeth esblygiad, ymddygiad, anatomeg ac ecoleg anifeiliaid. Byddwch yn meithrin sgiliau trosglwyddadwy megis casglu a dadansoddi data, meddwl yn feirniadol a chreu adroddiadau gwyddonol - sgiliau a fydd yn gymwys i amrywiaeth o yrfaeoddi proffesiynol mewn Swoleg a disgyblaethau cysylltiedig. Uchafbwynt eich gradd fydd eich Prosiect Ymchwil, pan fyddwch yn cynnal eich ymchwil swolegol annibynnol eich hun, o fewn un o'n grwpiau ymchwil. Cewch hefyd y cyfle i ddysgu sgiliau maes ym myd swoleg ac ecoleg drofannol, ac ymddygiad anifeiliaid - a hynny'n lleol a thramor mewn amgylcheddau coedwigoedd glaw trofannol tra-amrywiol megis basn yr Amazon neu Costa Rica.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Swoleg yn Aberystwyth:

- y technegau swolegol diweddaraf yn cynnwys microsgopeg flaengar, ac asesiadau bioamrywiaeth gyfoes
- ystod o weithdai, sesiynau labordy a chyrsiau yn y maes a fydd yn eich hyfforddi o safbwynt damcaniaethol ac ymarferol
- y cyfle i gymryd rhan mewn cyrsiau maes preswyl mewn gwledydd eraill - ee yn Peru, Costa Rica neu Borneo
- defnyddio systemau acwariwm i astudio anifeiliaid morol a dŵr croyw a'n hamgueddfa byd natur sy'n cynnwys sbesimenau swolegol a botanegol hanesyddol.

Cyflogadwyedd

Mae ein graddedigion wedi dilyn llwybrau gyrfa cyffrous mewn meysydd megis cadwraeth a lles anifeiliaid, ac ymchwilio i'r amgylchedd naturiol. Mae rhai wedi dewis astudio ar lefel uwchraddedig neu mewn ysgol filfeddygaeth.

Ffeithiau Allweddol



Math o radd: BSc.



Cod UCAS: C300 (C302 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant)



Hyd: 3 blynedd (mae C302 yn 4 blynedd).

Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

Y flwyddyn gyntaf:

- Biochemistry and the Cellular Basis of Life
- Comparative Animal Physiology
- Ecology/Ecology
- Evolution and the Diversity of Life
- Exploring Genetics
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills
- Wildlife Forensics
- Y Blaned Werdd/The Green Planet.

Yr ail flwyddyn:

- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- Invertebrate Zoology
- Vertebrate Zoology.

Y flwyddyn olaf:

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio yn yr ail a'r drydedd flwyddyn i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Behavioural Ecology
- Ethology
- Tropical Rainforest Ecology and Conservation (trec) Field Course
- Tropical Zoology Field Course
- Wildlife Management.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

Cwrs achrededig:



Ymddygiad Anifeiliaid

BSc (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (C122)

Mae Aberystwyth yn lle gwych i archwilio ymddygiad anifeiliaid gwyllt a dof. Mae cynefinoedd hygrych gerllaw yn ein galluogi i arsylwi ar ystod amrywiol o rywogaethau anifeiliaid gwyllt carismatig, tra bod rhywogaethau dof yn cael eu cadw ar ein ffermydd, yn ein canolfan geffylau ac yn ein cyfleusterau acwariwm. Mae llawer o'n staff dysgu yn ymchwilyr gweithgar, ac yn ymchwilio i amrywiaeth o agweddau ar ymddygiad anifeiliaid.

Bydd ein gradd mewn Ymddygiad Anifeiliaid yn rhoi ichi wybodaeth fanwl am ymddygiad anifeiliaid. Byddwch yn datblygu'r sgiliau gwyddonol, arsylwadol a dadansoddol sydd eu hangen i ddeall y pwnc, a byddwch yn defnyddio'r sgiliau hynny mewn astudiaethau ymarferol o anifeiliaid asgwrn cefn a heb asgwrn cefn mewn amrywiaeth o amgylcheddau naturiol a chaeth, a lleoliadau labordy.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Ymddygiad Anifeiliaid yn Aberystwyth:

- acwaria rhagorol, lle gallwch arsylwi ymddygiad pysgod ac infertebratau dyfrol yn agos, coedwigoedd ffawydd sy'n cynnwys dros 200 o flychau nythu, a chasgliad gwych o sbesimenau hanesyddol
- ymweliadau i astudio anifeiliaid yn gaeth ac yn eu cynefin, ee aber afon Dyfi — sy'n safle pwysig i adar ymfudol yn y gaeaf
- cael y cyfle i gymryd rhan mewn cwrs maes preswyl saith diwrnod, i drwytho'ch hun mewn astudiaeth ymarferol i ymddygiad anifeiliaid
- ein haddysgu arloesol sy'n defnyddio technoleg i gyfoethogi'r dysgu gan rai sy'n weithgar ym maes ymchwil ac eraill sy'n gweithio fel milfeddygon.

Cyflogadwyedd

Fel myfyriwr graddedig mewn Ymddygiad Anifeiliaid, byddwch wedi'ch paratoi yn dda ar gyfer gyrfa lwyddiannus mewn addysg amgylcheddol, gwyddor ymchwil, cadwraeth, lles anifeiliaid, ac ymgynghoriaethau ecolegol.

Ffeithiau Allweddol



Math o radd: BSc.



Cod UCAS: C120 (C122 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant).



Hyd: 3 blynedd (mae C122 yn 4 blynedd).

Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

Y flwyddyn gyntaf:

- Biochemistry and the Cellular Basis of Life
- Biological Thought and Discovery
- Comparative Animal Physiology
- Disease Diagnosis and Control
- Ecology/Ecology
- Evolution and the Diversity of Life
- Exploring Genetics
- Sgiliau Astudio a Chyfathrebu/Study and Communication Skills
- Wildlife Forensics.

Yr ail flwyddyn:


- Behavioural Ecology
- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- Ethology
- Vertebrate Zoology
- Veterinary Health.

Y flwyddyn olaf:

- Advanced Animal Behaviour
- Behaviour and Welfare of Domesticated Animals
- Prosiect Ymchwil/Research Project.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

Cwrs achrededig:



Cynlluniau Gradd Meistr Integredig

MBiol

MBiol Bioleg y Môr a Dŵr Croyw (C169)

MBiol Swoleg (C309)

Mae ein cynlluniau Meistr Integredig yn rhoi'r cyfle i chi gyfuno BSc â blwyddyn ychwanegol o astudio er mwyn graddio â chymhwyster Meistr. Mae'r cyrsiau hyn yn datblygu'r ehangder a'r dyfnder gwybodaeth, a'r gallu a'r hyder i ddefnyddio dulliau ymchwil, sy'n angenrheidiol ar gyfer gyrfa fel gwyddonydd proffesiynol.

Yn ystod eich blwyddyn olaf o astudio ar lefel Meistr, cewch gyfle i gymhwyso eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth benodol am y pwnc i brosiect ymchwil mawr gwyddonol, annibynnol, gan gydweithio'n agos ag un o grwpiau ymchwil ein Hathrofa. Byddwch hefyd yn astudio modiwlau trwy gwrs gyda'r nod o roi golwg fanylach ichi ar y technegau a'r damcaniaethau mwyaf cyfoes yn y gwyddorau biolegol. Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau hanfodol sy'n ofynnol ar gyfer bod yn wyddonydd proffesiynol heddiw.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Gradd Meistr Integredig yn Aberystwyth:

- mynediad i labordai ymchwil a dysgu lle ceir y cyfarpar diweddaraf, gan gynnwys adnoddau bioddelwedd, dilyniannu DNA â thrwybwn uchel, sytometreg llif, eplu o raddfa labordy i blanhigyn peilot, amgylcheddau arbrol eithafol, a phlatfformau proteomeg, metabolomeg a sbectrosgopig
- systemau acwariwm ac ystafelloedd tyfu i gynnal organebau môr, tir, a dŵr croyw
- y cyfle i gwblhau eich prosiect lefel Meistr o fewn i un o nifer o grwpiau ymchwil blaengar.

Cyflogadwyedd

Cafodd ein cynlluniau Meistr Integredig eu creu'n benodol i gwrdd â'r cynnydd yn y galw am staff sydd â'r cymwysterau addas i weithio ar lefel uchel mewn ymchwil wyddonol, datblygu, darlithio, hyfforddi ac addysg, mentrau cyhoeddus a phreifat, gwaith cynghori ac ymgynghori ym Mhrydain a ledled y byd. Cydnabyddir bod yr MBiol yn radd gyfatebol i MSc ar gyfer mynd ymlaen i ennill ysgoloriaethau PhD, a'i bod yn sail ragorol i yrfa fel gwyddonydd proffesiynol.

Ffeithiau Allweddol



Math o radd: MBiol.



Hyd: 4 blynedd.

Modiwlau craidd

Dyma'r modiwlau craidd y byddwch o bosibl yn eu hastudio ym mlwyddyn olaf y radd Meistr:

- Field and Laboratory Techniques
- Frontiers in Biosciences
- MBiol Research Project
- Research Methods in the Biosciences.

Cwrs achrededig:



 ar gael drwy'r Gymraeg

- 23% **MBiol Bioleg y Môr a Dŵr Croyw (C169)**
- 21% **MBiol Swoleg (C309)**



Blwyddyn integredig mewn diwydiant

Os ydych chi'n dymuno ehangu eich gorwelion a chael blas o'r gweithle neu brofi gyrfa drwy leoliad gwaith, bydd y flwyddyn integredig mewn diwydiant yn cryfhau ac yn gwella eich cyfleoedd gyrfa ar ôl graddio. Mae'r rhan fwyaf o'n cyrsiau anrhydedd sengl ar gael gyda'r opsiwn o gael blwyddyn integredig mewn diwydiant.

Cynhelir y flwyddyn integredig mewn diwydiant yn eich trydedd flwyddyn ac yna byddwch yn dychwelyd i Aberystwyth i gwblhau eich gradd yn y bedwaredd flwyddyn. Caiff y flwyddyn ei hasesu ac mae'n cyfrannu at farc terfynol eich gradd.

Manteision:

- Mwy cyflogadwy wrth raddio
- Mwy tebygol o gael cyflog cychwynnol uwch
- Mwy tebygol o sicrhau swydd ar lefel gradd.

Mae ein myfyrwyr wedi nodi manteision ychwanegol:

- Dod i wybod beth hoffech chi ei wneud mewn gwirionedd ar ôl graddio
- Profiad gwych - archwilio maes newydd a all fod dramor
- Gwneud eich blwyddyn olaf yn haws
- Datblygu eich rhwydweithiau cymdeithasol a phroffesiynol.

Gall ceisiadau a chyfweiliadau gymryd llawer o amser a byddwch yn graddio flwyddyn yn hwyrach na'ch ffrindiau yn y brifysgol, ond mae manteision y flwyddyn integredig mewn diwydiant yn bendant yn gorbwysu'r anfantaision.

Pa gymorth sydd ar gael?

- Ceir cymorth gan aelod academiaidd o staff sy'n bennaf gyfrifol am fyfyrwyr y flwyddyn integredig mewn diwydiant ac ymgynghorydd Gyrfaedd yr adran, yn gweithio law yn llaw gyda'r Gwasanaeth Gyrfaedd.
- Yn eich blwyddyn gyntaf cewch arweiniad ar sut i archwilio cyfleoedd gyrfa a chryfhau eich cyflogadwyedd
- Yn eich ail flwyddyn byddwch yn cael help i chwilio am swyddi, ysgrifennu CV, llythyrau eglurhaol a gwneud ceisiadau. Byddwch yn derbyn ymarfer cyfweiliad ffurfiol a chymeradwyaeth swyddogol i'ch lleoliad(au)
- Yn ystod eich Blwyddyn mewn Diwydiant byddwch yn cael cyswllt a chefnogaeth reolaidd a bydd goruchwyliwr academiaidd yn ymweld â chi.

Ben, Intern, Sefydliad De
Affrica ar gyfer Cadwraeth
Adar Arfordirol.

**Bu Ben yn gweithio yn yr Uned Magu Cywion
ar ôl hyfforddiant arbenigol yn gofalu a
magu cywion pengwin ac adar môr.**

"Profiad gwych, teithio a gweithio dramor.
Roedd yn gyflwyniad cadarnhaol iawn i
weithio yn y sector cadwraeth ac yn ffordd
wych o gael profiadau unigryw ar gyfer fy CV
ac i'w trafod mewn cyfweiliadau."



Cyfleoedd byd-eang



Mae tîm Cyfleoedd Byd-eang Aberystwyth yn cynnig amrywiaeth gyffrous o ddewisiadau ichi fynd dramor am ran o'ch gradd: o gyrsiau byr a chyfleoedd i wirfoddoli yn ystod yr haf i dreulio semester neu flwyddyn lawn yn astudio'r pwnc o'ch dewis yn un o'r prifysgolion sy'n bartner inni.

Mae'r brifysgol hefyd yn cynnig nifer o gyrsiau sy'n cynnwys blwyddyn integredig yn astudio dramor. Mae hyn yn eich galluogi i astudio yn un o'n prifysgolion partner yn Ewrop neu mewn rhan arall o'r byd am un neu ddau semester yn ystod eich trydedd blwyddyn, gan ddychwelyd i Aberystwyth ar gyfer eich blwyddyn derfynol ac i raddio.

Mae adroddiadau'n dangos bod myfyrwyr sy'n astudio dramor yn fwy deniadol i gyflogwyr ac yn ennill mwy o gyflog na'u cyfoedion. Cymrwch fantais o'r cyfle unigryw hwn i wella eich sgiliau allweddol trwy ddewis astudio dramor.



Sydney



Denmarc



Montana



St. Petersburg



Hong Kong



Washington, DC



Bergen



Awstria



Ottawa

Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

Gellir astudio pob cynllun gradd israddedig yn Adran Gwyddorau Bywyd yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn rhai cynlluniau gradd, mae dros hanner y modiwlau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gallwch ddewis cyflwyno eich holl waith cwrs, yn cynnwys aseiniadau a chyflwyniadau llafar drwy gyfrwng y Gymraeg a chwblhau eich arholiadau ysgrifenedig yn Gymraeg, beth bynnag yw cyfrwng addysgu'r modiwl. Mae'r Adran hefyd yn sicrhau bod yr holl fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael tiwtor personol a thiwtor traethawd hir sy'n gallu siarad yr iaith. Mae'r trefniadau addysgu hyn yn golygu bod ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael i fyfyrwyr o amrywiaeth o gefndiroedd Cymraeg.

Mae astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn fanteisiol mewn sawl ffordd. Mae'r manteision hyn yn cynnwys gwell cyfleoedd swyddi, cael eich addysgu mewn grwpiau llai a bod yn rhan o gymuned Gymraeg gyfeillgar a chroesawgar.

Bydd yr holl fyfyrwyr sy'n astudio modiwlau cyfrwng Cymraeg yn gymwys i dderbyn ysgoloriaeth astudio cyfrwng Cymraeg y Brifysgol, werth hyd at £250 y flwyddyn. Ymhellach, mae llawer o gyrсияu gradd yn gymwys am ysgoloriaethau israddedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sydd werth £1500 dros dair blynedd.

I gael rhagor o wybodaeth am yr ysgoloriaethau hyn ac i gael rhestr o'r cynlluniau gradd cymwys gweler gwefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/trwyrgymraeg



Ymchwil

Mae'r Adran Gwyddorau Bywyd yn ganolfan ymchwil ac addysgu a gydnabyddir yn fyd-eang sy'n cynnig cyfleusterau unigryw ar gyfer ymchwil mewn ymateb i heriau byd-eang fel diogelwch bwyd, bioynni a chynnaladwyedd, ac effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae gwyddonwyr yn cynnal ymchwil ar enynnau a moleciwlau, organebau cyfan a'r amgylchedd.

Grŵp Ymchwil Ecolegol ac Esblygol

Mae Ymchwil Ecolegol ac Esblygol yn rhychwantu ecosystemau daearol, dŵr croyw a morol. Rydym ni'n cynnal ymchwil i ddŵr, priddoedd, planhigion ac anifeiliaid (infertebratau a fertebratau) a'u rhyngweithio. Rydym ni'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau ar draws graddfeydd amser a gofod i ymdrin â chwestiynau allweddol am y ffordd mae ecosystemau'n gweithio a sut maent yn gweithredu. Er bod gennym ddiddordeb yn y presennol, mae ein hymchwil yn estyn i'r dyfodol drwy edrych ar sut y bydd amrywiaeth eang o newidynnau o ran newid yn yr hinsawdd fel cynhesu, CO2, asideiddio'r cefnfor ac ymbelydredd uwch-fioled yn effeithio ar ecosystemau. Caiff ein hymchwil ei integreiddio gydag addysgu ac rydym ni'n ystyried ein labordai a'r maes fel manau hyfforddi. Mae'r canlynol ymhlith y meysydd rydym ni'n canolbwyntio arny nhw:

- pridd a'i rannau cyfansoddol
- ecoffisioleg planhigion a sut mae planhigion yn ymateb i bwysedd abiotig a biotig mewn cymunedau lled-naturiol
- y berthynas agos rhwng planhigion ac infertebratau, yn cynnwys algae morol a llusyddion
- sut mae anifeiliaid pori yn cynnwys da byw yn effeithio ar gymunedau planhigion
- natur cystadleuaeth a sut mae cymunedau planhigion ac anifeiliaid yn gweithio
- technegau ar gyfer gwneud lle i natur mewn strwythurau a saernewid ar yr arfordir.

Grŵp Ymchwil Genomau Planhigion a Bioleg Cromosomau

Mae'r grŵp hyn yn cynnal ymchwil amrywiol i fioleg gweiriau, grawn a chodlysiau. Rydym ni'n cymwysu dadansoddiadau genomig, sytogenetig a biowybodeg wrth gynhyrchu a dadansoddi ffenoteipiau planhigion cnydau newydd. Mae'r Ganolfan Genedlaethol Ffenomeg Planhigion (NPPC) defnyddir gan lawer o'n haelodau. Mae'n cynnig y llwyfannau ffenoteipio diweddaraf a'i nod yw cyflenwi datrysiadau ffenoteipio integredig ar gyfer rhywogaethau cnydau allweddol a model. Mae'n defnyddio technolegau arloesol i fesur perfformiad a ffisioleg planhigion ar raddfeydd gwahanol, o'r moleciwlaidd a'r cellol i lefel organ a phoblogaeth.

- geneteg a genomeg gweiriau porthiant *Lolium perenne* (rhygwelw lluosflwydd) a *Festuca pratensis* (peiswellt)
- geneteg a genomeg cnwd trin ceirch hecsaploid (*Avena sativa*) a datblygu adnoddau arbrofol yn defnyddio perthynolion tetraploid a diploid
- ffylogeneteg foleciwlaidd *Avena* a *Brachypodium* spp
- sytogeneg foleciwlaidd adgyfuno meiotig a chyfansoddiad genom mewn amrywiol rywogaethau planhigion
- datblygu offerynnau cyfrifiannu ac adnoddau 'biowybodeg ar gyfer bridio' sy'n integreiddio canlyniadau ymchwiliadau genotypig a ffenotypig.

Grŵp Ymchwil Bioleg Ddyfrol, Ymddygiadol ac Esblygol

Mae'r grŵp hwn yn defnyddio ymagweddau rhyngdisgyblaethol at ddiddordeb sy'n uno: sut mae anifeiliaid yn addasu i'w hamgylchedd. O fewn y nod hwn rydym yn defnyddio amrywiaeth eang o dechnegau maes a labordy i ymchwilio i gwestiynau allweddol mewn ecoleg, esblygiad ac ymddygiad poblogaethau gwyllt. Rydym ni'n cyfuno arbenigedd a gweithgareddau ar draws y grŵp i ddarparu addysgu o ansawdd uchel yn seiliedig ar ymchwil. Mae aelodau o'r grŵp yn edrych ar y canlynol:

- plastigrwydd ymddygiadol ac ecoleg poblogaeth infertebratau
- esblygiad organebau dyfrol a'u parasitiaid
- bioleg a geneteg poblogaeth opisthobranchia
- ymddygiad, cân adar ac addasu trefol
- ymwybyddiaeth a rheolaeth niwroffisegol ymddygiad anifeiliaid
- niwroetholeg infertebratau
- esblygiad bioamrywiaeth ddyfrol a chysylltedd poblogaeth
- rhythmau circadaidd a circatidaidd mewn organebau morol.



Uchafbwyntiau ymchwil

Effeithiau newid yn yr hinsawdd ar gynefinoedd adar arfordirol

Mae ymchwilwyr ym mhrosiect ECHOES yn modelu ymddygiad a dosbarthiad Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las a'r Gylfinir Ewrasaidd ar hyd arfordiroedd Môr Iwerddon yn Iwerddon a Chymru. Ceir ymchwil manwl i godiad yn lefel y môr a gorlifo cynefinoedd allweddol, argaeledd planhigion maethlon ac infertebratau pridd, ac effeithiau ar yr adar cyn hedfan yn ôl i diroedd bridio'r haf.



Adeiladu strwythurau arfordirol artiffisial

Mae ymchwilwyr yn cysylltu teils arbennig i strwythurau atal llifogydd arfordirol yn Borth, sydd wedi'u cynllunio i ddynwared yr amgylchiadau delfrydol i alluogi bywyd gwyllt i gydio. Mae'r teils concrit wedi'u cynllunio yn defnyddio proses o'r enw ffotogrametreg sy'n creu delwedd 3D o'r dirwedd a geir ar lannau creigiog naturiol, a bydd yn galluogi i'r rhywogaethau mwyaf amrywiol a phrin oroesi.

Lliw ffabrig i helpu i reoli pryfed tsetse marwol

Mae ein gwyddonwyr wedi helpu i gyflawni darganfyddiad a allai helpu i reoli achosion o glefyd trofannol difaol drwy ddyfeisio ffabrig lliw gwel ar gyfer y targedau sydd wedi'u trin â phryfleiddiad a ddefnyddir i reoli tsetse, yn seiliedig ar ddeall sut mae'r pryfed yn gweld lliw. Mae'r ffabrig lliw fioled yn gryf ac yn effeithiol ar gyfer targedau yn erbyn rhywogaethau safana, a bydd yn helpu i wella bywydau pobl a chymunedau ar draws Affrica.



Rhybuddion o orbysgota tiwna yng Nghefnfor yr India

Mae biolegydd morol sy'n astudio geneteg y tiwna asgell felen oddi ar benrhyn De Affrica, lle mae Cefnfor yr India'n cyfarfod â Cefnfor yr Iwerydd, wedi dangos bod y ffin geowleidyddol a ddefnyddir i ddiffinio terfynau allanol ardaloedd asesu stoc Cefnfor yr India a Cefnfor yr Iwerydd yn golygu nad yw stociau tiwna'n cael eu mesur yn gywir. Mae hyn yn golygu y gallai fod angen addasu'r cwotâu presennol a osodwyd ar gyfer rheoli'r bysgodfa'n gynaliadwy oherwydd gallai gorbysgota'r tiwna asgell felen yng Nghefnfor yr India fod yn waeth nag a feddylwyd yn flaenorol.

Sut i wneud cais

Pan fyddwch wedi penderfynu pa gwrs yr hoffech ei astudio a ble, gallwch ddechrau'r broses o ymgeisio. Dyma gipolwg byr o'r broses a'n gweithdrefnau yma yn Aberystwyth.

1 Gwneud cais trwy UCAS.com

Dyddiad cau 15 Ionawr. Cod sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40

Gair i gall: Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

2 Bydd y brifysgol yn ystyried eich cynnig

Gair i gall: Defnyddiwch UCAS Track i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn 4 wythnos.

3 Bydd y cynnig i'w weld ar UCAS Track

4 Penderfynwch ble i fynd

Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau cadarn ac wrth gefn.

5 Llety

Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis cadarn/wrth gefn gallwch wneud cais am lety (Ebrill ymlaen).

6 Diwrnod y canlyniadau

Bydd UCAS Track yn cadarnhau eich cynnig o le. Os nad ydych yn sicr beth yw'r cynnig, cysylltwch â'r brifysgol yn uniongyrchol. Gwnewch yn sicr nad ydych ar wyliau ar ddiwrnod y canlyniadau. Os nad ydych yn cael y graddau yr oeddech wedi gobeithio amdanynt, efallai yr hoffech ystyried y broses Glirio

7 Dechreuwch bacio!



Adran Gwyddorau Bywyd
Prifysgol Aberystwyth,
Penglais,
Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 3DA

+44 (0) 1970 62 1986

ibers@aber.ac.uk

/IBERSAberUni

@ibers_aber

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan
Marchnata a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2022.



Argraffwyd ar bapur
wedi'i ailgylchu 100%